TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

## Cynlluniau Metro De Cymru

Rydyn ni wedi dechrau gweithio ar y Metro, sef system trafnidiaeth gyhoeddus integredig a fydd yn trawsnewid ein ffordd o deithio. Bydd yn cynnwys trenau tram trydan newydd sbon, gwasanaethau amlach a chyflymach, a gorsafoedd wedi'u huwchraddio neu rai hollol newydd.

Dros y blynyddoedd nesaf, bydd llawer o waith adeiladu, peirianneg a seilwaith i uwchraddio ein rhwydwaith rheilffyrdd yn barod ar gyfer y Metro, ac rydyn ni wrthi'n gweithio yn eich ardal chi.

### Datblygu Safleoedd

Cyn bo hir, byddwn yn sefydlu safleoedd dros dro yn Nhreforgan i wneud gwaith adeiladu a pheirianneg allweddol ar y rheilffordd. Bydd y safle yn ein galluogi i gael mynediad i'r llinell reilffordd i wneud gwaith cynnal a chadw allweddol a gwaith ar Metro De Cymru yn ogystal â datblygu Pont Gelynis i ddisodli'r groesfan reilffordd.

Mae safleoedd yn darparu lle dros dro i ganiatáu i'n gweithwyr weithio'n ddiogel wrth ymyl y rheilffordd, storio a chludo deunyddiau a darparu mynediad i wneud gwaith adeiladu a pheirianneg.

Oherwydd y gwaith sy'n cael ei wneud yn yr ardal, bydd yn rhaid i ni gadw'r safle ar agor 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos. Fodd bynnag, bydd y rhan fwyaf o'r gwaith yn cael ei wneud yn yr ardal yn ystod y nos pan fydd trenau ddim yn rhedeg. Byddwn yn gwneud popeth y gallwn ni i sicrhau cyn lleied o sŵn ac anghyfleustra â phosib.

Byddwn yn dechrau ar y gwaith o ddatblygu'r safle yn yr hydref. Bydd yn cymryd oddeutu 8 i 12 wythnos. Bydd y safle yn weithredol tan ddiwedd y cam hwn o'r prosiect Metro, yn 2023.

## Your South Wales Metro

We've started work on Metro, a modern integrated public transport system which will transform the way we travel. It'll feature brand-new electrically powered tram-trains; faster, more frequent services along with upgraded and entirely new stations.

In the next few years, we have a significant amount of construction, engineering, and infrastructure work to do to upgrade our rail network so that it's ready for Metro and we're currently working in your local area.

### Compounds Development

We will soon be setting up a temporary compound at Morganstown to undertake key construction and engineering work on the railway line. The compound will enable us to access the railway line to undertake key maintenance and South Wales Metro work as well as development of the Gelynis Bridge to replace the level crossing.

Compounds provide temporary space to allow our workers to work safely beside the railway, store and transport materials and provide access to undertake construction and engineering work.

Due to the work being carried out in the area, we will be required to keep the compound open 24 hrs of the day, seven days a week, however, most work will be carried out in the area during the night-time when trains are not running. We'll do all we can to keep noise and disruption to a minimum.

Work on developing the site will start in the autumn. Once started, it will take approximately 8 to 12 weeks to set up. The compound will remain in place until the end of this phase of the Metro project, in 2023



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

## Rheoli Traffig

Rydym wedi cyflawni ein cynllun rheoli traffig gyda rhanddeiliaid lleol ar gyfer ein safle yn Nhreforgan. Mae'r cynllun hwn yn ystyried effaith HGV a chyflenwadau eraill a fydd yn cael eu cludo i'r safle a sut y byddwn yn lleihau'r effaith a gaiff hyn ar y gymuned. O ganiatáu i'r HGV gael mynediad i'r safle trwy'r fynedfa ger Canolfan Arddio Pugh, bydd modd osgoi'r mwyafrif o dai ac amwynderau cyfagos.

Ar wahanol adegau yn ystod y cyfnod adeiladu, bydd cerbydau'n dod i'r safle i gludo deunyddiau adeiladu. Fel cymdogion cyfrifol, byddwn yn gofyn i'r gyrwyr HGV fydd yn cludo nwyddau i ddefnyddio'r prif ffyrdd i'r safle oddi ar yr A470, gan osgoi ardaloedd preswyl allweddol. Bydd danfoniadau'n cael eu rheoli trwy system reoli rithwir a byw, lle bydd pob cerbyd cludo yn cael cyfnodolyn er mwyn ceisio gwasgaru'r amseroedd y bydd nwyddau'n cael eu cludo i'r safle er mwyn osgoi unrhyw dagfeydd traffig.

Oherwydd y gwaith sy'n cael ei wneud yn yr ardal, bydd gofyn i ni gael mynediad i'r rheilffordd trwy'r lôn a elwir yn lleol yn Gelynis Farm Lane a/neu Gelynis Farm Road. Bydd y mynediad hwn ar gyfer ceir a faniau yn ystod y dydd.

## Datblygu Croesfan Fferm Gelynis

Yn ddiweddar, rhoddwyd caniatâd cynllunio i Drafnidiaeth Cymru adeiladu pont a llwybr troed newydd yn Fferm Gelynis. Bydd hyn yn caniatáu inni gau'r groesfan reilffordd a'r llwybr cyhoeddus, am resymau diogelwch oherwydd cynnydd yn y trenau sy'n rhedeg yn yr ardal yn dilyn datblygiad Metro De Cymru. Bydd y bont newydd i'r gogledd o'r groesfan reilffordd bresennol a bydd yn darparu llwybr newydd i gerddwyr a cherbydau ar draws rheilffordd Radyr - Pontypridd. Bydd y bont newydd yn darparu mynediad hawl tramwy newydd i'r bont bibell gyda llwybr cerdded i gerddwyr yn cysylltu â llwybr cerdded a hyrwyddir gan Lwybr Taf a Llwybr Beicio Cenedlaethol 8. Rydym yn gobeithio dechrau ar y gwaith o adeiladu'r bont yn yr hydref a bydd yn cymryd tua 12 mis i'w gwblhau.

www.trc.cymru/cy/adeiladu-ein-metro

Mae tudalen arbennig ar ein gwefan i roi gwybod am

## Traffic Management

We have finalised our traffic management plan with local stakeholders for our compound in Morganstown. This plan considers the impact of HGVs and other supplies delivered to site and how we will minimise distribution to the community. Access for HGVs to the compound would be via the access beside Pugh's Garden Centre, thereby avoiding most nearby housing and amenities.

At various points during the construction phase, vehicles will be coming to site to deliver construction materials. As responsible neighbours, HGV delivery drivers will be instructed to use the main roads to the site from the A470, avoiding key residential areas. Deliveries will be controlled via a virtual and live management system, which will require all delivery vehicles to book a timeslot, ensuring deliveries are staggered and helping to limit congestion.

Due to the work being carried out in the area, we will be required to access the railway via the lane known locally as Gelynis Farm Lane &/or Gelynis Farm Road. This access will be for cars and vans during daytime hours.

## Gelynis Farm Crossing Development

Planning permission has recently been granted for Transport for Wales to build a new bridge and foot path at Gelynis Farm. This will then allow us to close the level crossing and public footpath, for safety reasons due to an increase of trains running in the area following the development of the South Wales Metro. The new bridge will be situated to the north of the existing level crossing and will provide a new pedestrian and vehicular route across the Radyr - Pontypridd railway. The new bridge will provide a new right of way access to the pipe bridge with pedestrian walkway connecting with the Taff Trail promoted walking route and National Cycle Route 8. Construction of the bridge is due to start in the Autumn and will take 12 months to complete.



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

## Sesiwn Galw Heibio Diwrnod Agored

Bydd Trafnidiaeth Cymru yn cynnal sesiwn galw heibio i'r gymuned ddydd Mercher 8fed Medi 2021 rhwng 2pm a 7pm yn Neuadd Bentref Treforgan. Bydd y sesiwn galw heibio yn gyfle i chi gwrdd â chynrychiolwyr Trafnidiaeth Cymru a'n partneriaid adeiladu sy'n rhan o'r cynllun a gofyn unrhyw gwestiynau am y gwaith rydyn ni'n ei wneud yn yr ardal. Mae croeso i chi alw heibio ar unrhyw adeg ac nid oes angen apwyntiad.

## Traciwr ar gyfer Eich Ardal

Mae Trafnidiaeth Cymru wedi datblygu traciwr ar-lein i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch gwaith sy'n digwydd yn eich ardal chi. I ddod o hyd i'r wybodaeth diweddaraf am y gwaith yn eich ardal chi, ewch i https://workinyourarea.trc.cymru/

## Rhagor o Wybodaeth

Metro: Mae'r Canllaw i Gymunedau yn darparu trosolwg o'r gwaith rydym yn ei wneud ar y Metro rhwng nawr a 2023; gallwch lawrlwytho copi yn www.trc.cymru/building-our-metro

Mae ein tîm cysylltiadau cwsmeriaid hefyd wrth law i ateb eich cwestiynau, ffoniwch 033 33 211 202 neu ewch i www.tfwrail.wales/contact-us i gael mwy o wybodaeth.



Cynllun Safle Awst 2021

## Open Day Drop In Session

Transport for Wales are hosting a community drop-in session on Wednesday 8th September 2021 between 2pm and 7pm at Morganstown Village Hall. The drop-in session will be an opportunity for you to meet representatives from Transport for Wales and our construction partners involved in the scheme and ask any questions on the work we are carrying out in the area. You are welcome to drop-in at any time and no appointment is necessary.

## In Your Area Tracker

Transport for Wales has developed an online tracker to provide up-to-date information on work going on in your area. To find the most up to date information works in your area, please visit https://workinyourarea.trc.cymru/

## More Information

Metro: A Guide for Communities provides an overview of our Metro work between now and 2023; you can download a copy at www.trc.cymru/building-our-metro

Our customer relations team is also on hand to answer your questions, please call 033 33 211 202 or visit www.tfwrail.wales/contact-us for more information.



Compound Plan August 2021